OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1387 (Cy.168)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) (Dirymu) 2012

Gwnaed - - - -	*23 Mai 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Mai 2012*
Yn dod i rym - -	*15 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru,

a hwythau bellach heb eu bodloni bod difa aelodau gwyllt o rywogaeth y mochyn daear yn angenrheidiol o fewn yr ardal reoli a bennir yng Ngorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011 er mwyn dileu neu leihau'n sylweddol nifer yr achosion o dwbercwlosis mewn anifeiliaid o unrhyw fath yn yr ardal honno, ac

ar ôl ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 21(2), (4) a (5) ac 86(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) (Dirymu) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2012.

Dirymu

2. Dirymir Gorchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011 (**3**).

(**1**) 1981 p.22.

(**2**) Enwir adran 86(1) oherwydd yr ystyr a roddir i "the Minister". Mae swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) O.S. 2011/ 693 (Cy.105).